# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

## 340 - Beirniadaeth Rhyddiaith Bl. 7
## Beirniad: Beth Celyn

19 darn o ryddiaith ddaeth i law a phob llais gyda photensial. Gobeithio roedd y testun yn ysbrydoliaeth i'r holl awduron ifanc ac y bydden nhw'n parhau i fwynhau ysgrifennu a meithrin eu crefft.

Yn drydydd mae Pepsi Max gyda 'Seren', darn sy'n sôn am siwrneiau car yn ôl ac ymlaen i'r clwb pêl-droed. Ychydig o adborth cynhyrchiol: anghyfreithlon byddai i'r fam ddreifio adref yn ystod y nos heb droi golau'r car ymlaen. Er gwaethaf hyn dyma lais aeddfed a adawodd argraff gyda'r frawddeg glo: 'Mae'r sêr yn dal yn disgleirio, a pholyn Nebo dal yn sefyll yn hir ac yn goch yn dangos y ffordd adref i fi.'

Yn ail mae Shane Williams gyda 'Seren Alun Einstein', stori a chaiff ei hadrodd mewn cyfres o fynediadau dyddiadur o 2054 i 2097. 'Hogyn o Bwllheli' ydi Alun sy'n darganfod sut i deithio cyflymder golau. Mae'n dechnegydd ym mhencadlys Prydeinig yr AGE (Asiantaeth Gofod Ewropeaidd) yng Nghaerdydd. Dyma awdur chwareus gyda dychymyg gafaelgar.

Ond yn cipio'r wobr gyntaf mae Seren y Gogledd gydag 'Y Seren Sâl'. Dyma stori llawn gwreichion gwreiddioldeb o'r 'creision comed' i'r 'losin lleuad'. Mae Senbyll, seren hynaf y bydysawd, yn sâl gyda salwch o'r enw 'Y Surni Sêr'. Mae'n rhaid i Serfawr a Gwibiwyd canfod yr 'Hylif Haul' cyn i Senbyll droi mewn i dwll du. Dyma awdur hyderus gyda llais gwreiddiol a fuasai'r stori hon yn medru cael ei haddasu ar gyfer llyfr llun a stori neu ar gyfer y teledu. Llongyfarchiadau gwresog.

1af - Iolo Ruddy
2il - Iago Evans
3ydd - Hari Williams